CAERDYDD
CARDIFF

DINAS A SIR CAERDYDD
CITY AND COUNTY OF CARDIFF

| | |
|---|---|
| **GWYS Y CYNGOR** | DYDD GWENER, 9 RHAGFYR 2022 |
| **COUNCIL SUMMONS** | FRIDAY, 9 DECEMBER 2022, |

Fe'ch gwysir I fynychu cyfarfod **CYNGOR SIR DINAS A SIR CAERDYDD**, a gynhelir yn Council Chamber - City Hall, Cathays Park, Cardiff, CF10 3ND on Dydd Gwener, 9 Rhagfyr 2022 at 4.30 pm I drafod y materion a nodir yn yr agenda atodedig.

**Davina Fiore**
**Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol**

Neuadd y Sir
Caerdydd
CF10 4UW

Dydd Llun, 5 Rhagfyr 2022

---

Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch at eraill   Gwrthrychedd a priodoldeb   Anhunaoldeb a stiwardiaeth
Uniondeb   Dyletswydd i gynnal y gyfraith   Atebolrwydd a bod yn agored

Trwy dderbyn y Pecyn Agenda hwn yn electronig, rydych wedi arbed yr Awdurdod tua. £ ** mewn costau argraffu

**GWE-DARLLEDU**

Caiff y cyfarfod hwn ei ffilmio i'w ddarlledu'n fyw a/neu yn olynol trwy wefan y Cyngor. Caiff yr holl gyfarfod ei ffilmio, heblaw am eitemau eithriedig neu gyfrinachol, a bydd y ffilm ar gael ar y wefan am 12 mis. Cedwir copi o'r recordiad yn unol â pholisi cadw data'r Cyngor.

Ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a gaiff y cyfarfod cyfan neu ran ohono ei ffilmio. Fel rheol, ni chaiff ardaloedd y cyhoedd eu ffilmio. Fodd bynnag, wrth fynd i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r ardal gyhoeddus, mae aelodau'r cyhoedd yn cydsynio i gael eu ffilmio ac y defnyddir y lluniau a recordiadau sain hynny o bosibl at ddibenion gwe-ddarlledu a/neu hyfforddi.

Os oes gennych gwestiynau ynghylch gwe-ddarlledu cyfarfodydd, cysylltwch â'r Gwasanaethau Pwyllgorau ac Aelodau ar 02920 872020 neu e-bost Gwasanethau Democrataidd

| *Eitem* | | *Tua Amser* | *Max Amser* |
|---|---|---|---|
| **1** | **Ymddiheuriadau am Absenoldeb**<br><br>Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb. | | |
| **2** | **Datgan Buddiannau**<br><br>Derbyn datganiadau o fuddiant (datganiadau o'r fath i'w gwneud yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau) | | |
| **3** | **Hysbysiad o Gynnig**<br><br>Ystyried yr Hysbysiad o Gynnig canlynol sydd wedi'i gyflwyno yn unol â Rheol 4 (b)(iv) Gweithdrefn Cyfarfod y Cyngor ar 25 Tachwedd 2022.<br><br>***Cynigiwyd gan y Cynghorydd Jon Shimmin***<br><br>***Eiliwyd gan y Cynghorydd Rodney Berman***<br><br>Y Cynghorwyr Carter, Naughton, Wood, Molik, Hopkins, Waldron, Latif<br><br>Mae'r Cyngor hwn yn nodi gyda phryder mawr pa mor gyflym y gallai'r Cabinet fod yn symud tuag at benderfyniad i newid perchnogaeth a/neu reolaeth Neuadd Dewi Sant y ddinas, a ystyrir gan nifer fel neuadd gyngerdd genedlaethol Cymru, a cyn i unrhyw benderfyniad o'r fath gael ei wneud mae'n galw am:<br><br>1) Gyhoeddi achos busnes llawn gan y Cabinet sy'n dangos pam y mae o'r farn y byddai'r cynigion o fudd i gymuned Caerdydd a'r genedl ehangach;<br><br>2) y Cabinet i ddangos sut y byddai unrhyw gynnig o'r fath yn cadw treftadaeth ddiwylliannol y ddinas trwy ddarparu'r holl fesurau diogelu angenrheidiol y byddai allbwn diwylliannol a chlasurol presennol y Neuadd yn cael eu cadw ar y lefelau presennol neu'n fwy, y byddai'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer digwyddiadau cymunedol yn cael ei chynnal, ac na fyddai unrhyw newidiadau neu gynigion strwythurol neu gynigion arfaethedig i waredu'r seddi presennol yn effeithio ar acwstigau rhagorol | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cydnabyddedig y Neuadd.<br><br>3) Cynnal ymgynghoriad llawn ac ystyrlon gyda'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol ar werth y cynigion, a rhoi ystyriaeth briodol i ganlyniad yr ymgynghoriad hwn; a<br><br>4) Archwilio’n llawn bob llwybr arall i sicrhau'r cyllid sydd ei angen i gynnal yr adeilad a chlirio'r ôl-groniad cynnal a chadw presennol – gan gynnwys gofyn i Lywodraeth Cymru ddarparu cymorth ariannol i sicrhau dyfodol ein Neuadd Gyngerdd Genedlaethol dan berchnogaeth a gweithrediad cyhoeddus.<br><br>Os yw'r Cabinet, ar ôl cymryd y camau hyn, yn parhau’n benderfynol i fwrw ymlaen â newid perchnogaeth a/neu reolaeth Neuadd Dewi Sant, yna mae'r Cygor hwn yn galw am gyflawni hynny drwy broses dendro agored a allai sicrhau y gellir ystyried yr opsiwn gorau sydd ar gael, yn amodol ar fodloni'r mesurau diogelu priodol. | | |